University and College Union
Undeb Prifysgol a Choleg Cymru

Mae'r **Undeb Prifysgolion a Cholegau** (UCU Cymru) yn cynrychioli bron i 7,000 o academyddion, darlithwyr, hyfforddwyr/cyfarwyddwyr, ymchwilwyr, rheolwyr, gweinyddwyr, staff cyfrifiadurol, llyfrgellwyr, ac ôl-raddedigion mewn prifysgolion, colegau, addysg oedolion, carchardai a sefydliadau hyfforddi ledled Cymru. Mae UCU Cymru yn rhan annibynnol yn w leidyddol ond annatod o UCU, yr undeb ôl-ysgol mwyaf yn y byd.

2021



# Maniffesto UCU Cymru
# Etholiadau Senedd Cymru

**Mae argyfwng COVID-19 yn cyflwyno her ddwbl. Y tu hwnt i'r argyfwng iechyd cyhoeddus, yr ymateb uniongyrchol fu cau'r economi mewn ffordd na welwyd ei thebyg o'r blaen. Pan ddaw'r argyfwng meddygol brys i ben, yr her fydd ailgychwyn economi sydd dan bwysau syfrdanol, gan wynebu'r risg y bydd yr anghydraddoldebau o ran cyfoeth, p er a chyfleoedd roeddem yn brwydro â nhw cyn y pandemig, yn fwy nag erioed.**

Yng Nghymru, mae angen proses adfer a diwygio sy'n rhoi mwy o bwys ar werth addysg ac anghenion y gymuned na marchnadeiddio. Cenedl lle y caiff anghenion gydol oes y dysgwr eu hystyrid yn hawl werthfawr. Rhaid meithrin partneriaeth gymdeithasol newydd. Gellir sicrhau parch cydradd wrth i wahaniaethau hen ffasiwn rhwng llwybrau galwedigaethol ac academaidd ildio i ddulliau gweithredu o'r radd flaenaf y mae addysgeg yn rhan greiddiol ohonynt.

Bydd sicrhau dyfodol addysg bellach, addysg uwch ac addysg oedolion yn y gymuned yn ganolog i'r broses adfer hon a arweinir gan gydraddoldeb. Mae dysgu o fudd i bawb o bob oed o ran cyflogadwyedd, llesiant, datblygiad personol a hunanhyder. Nawr, yn fwy nag erioed, mae'r Undeb Prifysgolion a Cholegau (UCU) yn ymgyrchu dros fwy o fuddsoddiad cyhoeddus yn y sector addysg ôl-16, yn ogystal â chyflog teg ac amodau gwaith teilwng i'n haelodau. Mae colegau a phrifysgolion yn gwneud cyfraniad allweddol at yr economi, fel cyflogwyr lleol, sefydliadau angori ac fel darparwyr hyfforddiant ac addysg ar gyfer y gweithlu y mae economïau lleol a Chymru gyfan yn dibynnu arnynt.

Mae addysg ôl-16 yn ganolog i lwyddiant economi Cymru, ond mae hefyd wrth wraidd cyfiawnder cymdeithasol. Mae ein byd yn newid yn gyflym; y tu hwnt i'r argyfwng uniongyrchol, mae pobl yn byw'n hirach ac yn wynebu effeithiau globaleiddio, technoleg ddigidol a newid hinsawdd. Rhaid iddynt allu ailafael mewn dysgu drwy gydol eu bywydau er mwyn eu helpu i addasu a ffynnu. Er mwyn sicrhau bod ein system addysg ôl-16 yn gwireddu ei photensial dros y degawd nesaf a'r tu hwnt, mae angen i ni sicrhau y gall pawb fanteisio ar gyfleoedd dysgu o ansawdd uchel – ni waeth beth fo'u hoedran, eu cefndir na'u hamgylchiadau. Mae angen i ni hefyd sicrhau bod gyrfaoedd ym maes addysg uwch, addysg bellach, addysg i oedolion ac addysg mewn carchardai yn gynaliadwy ac yn ddeniadol. Er mwyn gwireddu potensial addysg a hyfforddiant mewn cymdeithas yn llawn, rhaid i ni sicrhau y cânt eu hariannu'n ddigonol a'u bod yn gwbl hygyrch. Dylai polisïau fod yn seiliedig ar y dybiaeth bod ysgolion, darparwyr addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned a phrifysgolion, gyda'i gilydd, yn darparu'r llwybr i gyfleoedd a fydd yn gwella bywydau ac economïau cryfach.

Maes angen ailosod y llwyfan. Mae sgiliau'n bwysig ond mae economi drosiannol hefyd yn gofyn am gymwyseddau, galluoedd ac arferion meddwl y gellir ond eu cyflawni drwy ganolbwyntio ar addysgeg a gwella ansawdd ar y cyd. Rhaid i weithwyr proffesiynol gael y rhyddid i ddatblygu arferion o'r radd flaenaf. Mae angen i ni adfer cydbwysedd ym maes addysg, gan sicrhau y caiff pob sector ei ystyried yn rhan gydlynol o'r un broses, a bod y broses er budd ac er lles y gymdeithas gyfan. Ein gweledigaeth yw sicrhau rhagoriaeth ym maes addysgu, ymchwil ac ysgolheictod, hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol drwy sicrhau y gall pawb fanteisio ar addysg o ansawdd da mewn sefydliadau a gosod ymrwymiad i gydraddoldeb wrth wraidd ein system addysg. Credwn mewn rhyddhau potensial drwy addysg a hyfforddiant, gan weithio mewn partneriaeth gymdeithasol i ddatblygu polisi ôl-16 y dyfodol. Dylai fod gan addysg werth yn ei rhinwedd ei hun. Mae ei rôl o ran creu cyfoeth yn hanfodol, ond rhaid sicrhau nad hynny yw ei hunig ddiben. Ar ei gorau, mae addysg yn rhyddhau meddyliau, yn darparu cyfleoedd bywyd ac yn arloesi syniadau newydd a gwybodaeth newydd.

Ond rhaid i'r broses newid fod yn seiliedig ar bartneriaeth gymdeithasol wirioneddol. Heb y bartneriaeth honno, ni ellir cyflawni'r newidiadau y mae pob un ohonom yn ymrwymedig iddynt. Mae ymrwymiad i ansawdd yn sail i'r maniffesto hwn hefyd. Mae angen diffiniad newydd sy'n mynd y tu hwnt i ystadegau ar daenlen i gydnabod yn ehangach y datblygiad personol a chyfunol sy'n gysylltiedig ag addysg, profiadau ymarferol bob dydd dysgwyr a staff, a'r cyfraniad enfawr y gall ei wneud i'r frwydr dros gyfiawnder cymdeithasol, cydlyniant cymdeithasol a'r ymdrech i roi diwedd ar dlodi plant. Mae UCU wedi nodi pedwar maes lle yr hoffem weld ymrwymiadau cadarn gan bob plaid wleidyddol yn etholiadau Senedd Cymru sydd ar ddod, a chredwn y bydd hyn yn dechrau mynd i'r afael â'r materion hyn.

# Addewid Un




## LLWYTH GWAITH STAFF YN Y SECTOR ÔL-16

Mae'r sector ôl-16 presennol yn gweithredu ar sail ewyllys da sylweddol.  Ymhell cyn y pandemig, byddai gweithwyr proffesiynol yn aml yn gweithio y tu hwnt i'w horiau contract a byddai modelau llwyth gwaith cyflogwyr yn tangyfrif yr oriau a weithiwyd gan staff yn rheolaidd. Mae'r hyn a oedd yn anghynaliadwy yn y gorffennol bellach yn anfaddeuol. Ers 2020, mae darlithwyr wedi rhuthro i addasu eu harferion i gynnwys technegau dysgu cyfunol newydd, wedi uwchsgilio ym maes technoleg ddigidol ac wedi mynd yr ail filltir o ran cynnig cymorth bugeiliol a sicrhau amgylchedd dysgu diogel. Mae UCU yn derbyn y bydd angen hyblygrwydd ac arloesedd er mwyn adfer yr economi. Fodd bynnag, byddwn yn sicr yn gwrthod unrhyw fodel sy'n ariannu dulliau cyflawni drwy waith di-dâl staff. Dylai fod diben clir i dasgau a rhaid rhoi sylw i reolwriaeth er mwyn neilltuo mwy o amser i ddysgu ac addysgu. Mae'r proffesiwn yn awyddus i gydweithio er mwyn cyflawni chwyldro dysgu gwirioneddol, ond rhaid cydnabod ewyllys da â llwyth gwaith teg a ffocws ar lesiant. **Rydym yn galw ar yr holl bleidiau i ymrwymo i'r canlynol:**

**Cynnal adolygiad difrifol o lwythi gwaith ym mhob sefydliad ôl-16 yng Nghymru, gan sicrhau bod modelau llwyth gwaith yn caniatáu'r hyblygrwydd sydd ei angen i ymateb i'r galw y gwyddom y bydd y sector yn ei wynebu yn y dyfodol mewn perthynas â meithrin sgiliau a dysgu gydol oes a gweithwyr hyblyg wedi'u hyfforddi'n dda sy'n meithrin sgiliau trosglwyddadwy drwy gydol eu bywydau gwaith.**





# Addewid Dau



## COVID 19 – GWNEUD Y GORAU O SEFYLLFA ANODD

Mae pandemig COVID-19 wedi cael effaith y tu hwnt i'r dychymyg ar y Deyrnas Unedig gyfan. O ran y sector addysg uwch yng Nghymru, mae'r pandemig yn parhau i fygwth canlyniadau ariannol aruthrol. Mae prifysgolion Cymru eisoes wedi colli swm sylweddol iawn o refeniw mewn perthynas â llety, cynadleddau a digwyddiadau. Yn obeithiol, gan dybio y bydd brechlyn ar gael yn gynnar yn 2021, mae'n bosibl y bydd angen sefydlogi sefydliadau yn y byrdymor a'r tymor canolig.

Mae'r ymateb i COVID-19 wedi arwain at gydweithio digynsail o fewn y gweithlu. Gan gydnabod mai ein haelodau sydd â llawer o'r wybodaeth a'r arbenigedd, bydd angen sicrhau lle a buddsoddiad er mwyn diwallu'r angen i addasu technegau newydd yn seiliedig ar ddysgu digidol a chyfunol.

Wrth i ni symud oddi wrth ddysgu wyneb yn wyneb i ddysgu digidol, mae cyfleoedd i Gymru arwain ar arloesedd, a bydd gwneud hynny'n fwy hanfodol byth wrth i'n heconomi newid mewn ymateb i Brexit ac awtomeiddio cyflym. Gall sefydliadau fod ar flaen y gad o ran y chwyldro hwn os caiff staff y cyfle i ddatblygu eu harferion eu hunain drwy gydweithio a datblygiad proffesiynol parhaus ardderchog. **Rydym yn galw ar yr holl bleidiau i ymrwymo i'r canlynol:**

**Gweithio gyda'r sector prifysgolion i ddiogelu iechyd ariannol parhaus sefydliadau a sicrhau y caiff fframwaith Digidol 2030 ei ariannu'n briodol ac y caiff gweithwyr proffesiynol eu cefnogi i'w gyflawni a sicrhau gwelliant gwirioneddol mewn ansawdd.**



# Addewid Tri



## DYSGU OEDOLION YN Y GYMUNED



Cred UCU y gall dysgu oedolion yn y gymuned wneud cyfraniad pendant at y rhaglen ailsgilio ac ailhyfforddi gydgysylltiedig y bydd ei hangen yng Nghymru yn dilyn COVID-19. Ni allwn ddibynnu mwyach ar ardaloedd lleol o ffyniant i wella cymunedau cyfagos. Bellach, ceir cydnabyddiaeth gyffredinol mai darpariaeth hygyrch sy'n seiliedig ar le yw'r ffordd orau o ddiwallu anghenon grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol a fyddai fel arall yn cael eu gadael ar ôl. Felly, mae Dysgu Oedolion yn y Gymuned yn hollbwysig i sicrhau Cymru fwy ffyniannus a phroses adfer a arweinir gan gydraddoldeb.

Fodd bynnag, dros y blynyddoedd diwethaf, mae dysgu oedolion yn y gymuned wedi wynebu toriadau sylweddol islaw effaith caledi. Mae'r ddarpariaeth wedi lleihau ledled Cymru a bron wedi diflannu'n llwyr mewn rhai ardaloedd. Mae UCU Cymru yn ymrwymedig i sicrhau bod dysgu oedolion yn y gymuned yn cael ei ariannu'n briodol ac yn ddigonol a bod y materion cynllunio a darparu yn cael eu datrys er mwyn sicrhau darpariaeth deg o ddysgu oedolion yn y gymuned ledled Cymru. Gall dysgu oedolion yn y gymuned wneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl drwy gynnig cyfleoedd i symud ymlaen i ddysgu pellach, hyfforddiant, ymgysylltu â'r gymuned a chyflogaeth. Gyda ffocws newydd ar weledigaeth a strategaeth, strwythurau, partneriaethau ac ansawdd, gall dysgu oedolion yn y gymuned barhau i chwarae rôl flaenllaw wrth gefnogi unigolion a chymunedau ledled Cymru i sicrhau Ffyniant i Bawb. Gan ystyried y lefelau isel parhaus o ran sgiliau hanfodol a chyfraddau uchel o anweithgarwch economaidd mewn sawl rhan o'r wlad, mae'n rhaid gwneud rhywbeth. **Rydym yn galw ar yr holl bleidiau i ymrwymo i'r canlynol:**

**Datblygu darpariaeth dysgu oedolion yn y gymuned effeithiol sy'n cynnwys y grwpiau mwyaf anodd eu cyrraedd; sicrhau chwarae teg i bob rhan o'r ddarpariaeth ôl-16, gan helpu i newid agweddau at ddysgu a chynnig ail gyfle i bobl wireddu eu potensial. Mae darpariaeth dysgu oedolion yn y gymuned yn hawl ddynol i BOB unigolyn a chymuned yng Nghymru, ni waeth beth fo'u hamgylchiadau na'u safle mewn cymdeithas yng Nghymru, gan sicrhau bod dysgu oedolion yn gymuned yn elfen graidd o hawl Cymru i ddysgu gydol oes.**

# Addewid Pedwar



## FFRAMWAITH PRENTISIAETH YNG NGHYMRU

Cyn yr argyfwng, roedd UCU eisoes wedi bod yn lobïo dros fframwaith prentisiaethau cydlynol i Gymru, a fyddai'n galluogi dysgwyr i symud ymlaen o brentisiaeth iau yn 14 oed i brentisiaeth feistr ar lefel saith. Mae'r gwaith o gyflwyno'r cwricwlwm newydd mewn ysgolion yn edrych tuag at yr 21ain ganrif er mwyn sicrhau bod y rhai sy'n gadael ysgol wedi'u paratoi'n briodol ar gyfer newidiadau strwythurol o ran gwaith, gyda'r defnydd cynyddol o dechnoleg ddigidol a'r newidiadau mewn prosesau cynhyrchu ym maes gweithgynhyrchu. Mae nodau iechyd a llesiant y llywodraeth bresennol yn ffactorau ysgogi allweddol yn y maes hwn. Mae'n rhaid i ni sicrhau bod gennym fframwaith prentisiaethau sy'n diwallu anghenion yr unigolyn a chyflogwyr yng Nghymru, y mae llawer ohonynt yn BBaChau. Wrth ymateb i 'Budd y Cyhoedd a Chymru Ffyniannus', dadleuodd Lucas[1] ar ran UCU dros fframwaith a oedd yn mynd i'r afael â'r prif faterion, yn ei farn ef.

*Dywedodd, er gwaethaf yr uchelgais cyfoes iawn o sicrhau darpariaeth fwy cydgysylltiedig, mae iaith yr Ymgynghoriad, yn rhyfedd iawn, yn edrych i'r gorffennol, heb roi llawer o sylw i ddatblygiadau ledled y byd. Mae'n frith o gyfeiriadau at sgiliau, ond dim ond saith gwaith y defnyddir y gair gwybodaeth ac nid oes unrhyw ymgais i gydnabod cysyniadau ehangach megis cymwyseddau, galluoedd nac arferion meddwl. Os bydd angen delio â phedwar sector – sef ysgolion, addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith ac addysg uwch – mewn modd cyfannol, bydd yn bwysig defnyddio iaith gyffredin, yn ôl Lucas.*

Yn ogystal â'r angen am iaith gyffredin, mae angen fframwaith prentisiaeth cyffredin sy'n galluogi gweithwyr i ymgymryd â dysgu ar bwyntiau priodol yn eu datblygiad; sy'n cydlynu cymwyseddau, galluoedd ac arferion y meddwl, ac sy'n hyblyg ac wedi'i osod mewn fframwaith credyd a chasglu er mwyn galluogi pobl i ddilyn prentisiaethau ar sail ran-amser ar bob lefel y tu hwnt i'r lefel brentisiaeth iau. Petai Cymru yn creu fframwaith a oedd yn cyrraedd safonau galwedigaethol rhyngwladol, gallai arwain y ffordd yn y maes hwn, yn enwedig o ran ymgysylltu â BBaChau i alluogi eu gweithlu i fanteisio ar brentisiaethau rhan-amser. I bob pwrpas, yr hyn rydym yn ei awgrymu yw bod y brentisiaeth yn dod yn gymhwyster ar y lefel a gyrhaeddwyd hyd yma, a 'hyd yma' yw'r ymadrodd pwysig yma. **Rydym yn galw ar yr holl bleidiau i ymrwymo i'r canlynol:**

**Gweithio mewn partneriaeth gymdeithasol i gomisiynu prosiect sy'n rhoi'r cyfle i gyflwyno fframwaith prentisiaethau yng Nghymru i ysgolion a sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch. Rydym yn cynnig ceisio cyngor gan y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd a'r Athro Bill Lucas ar sut y gallem ddatblygu fframwaith a fyddai'n hyblyg ac yn hygyrch i ddysgu rhan-amser, ac a fyddai hefyd yn cyd-fynd â'r newidiadau i'r cwricwlwm newydd a gyflwynir o ganlyniad i waith yr Athro Donaldson.**

[1] https://www.ucu.org.uk/media/10750/Public-good/pdf/public-good-prosperous-wales_bill-lucas_8Nov17.pdf